# Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Newidiadau i Bwy sy'n Gymwys ac Asesiad 2016

## Cynllun y Bathodyn Glas

Cafodd Cynllun y Bathodyn Glas ei ddechrau yn 1971 i bobl a oedd yn cael trafferth cerdded.




Mae'r bathodyn yn gadael i bobl barcio'n agos i'w gwaith, siopau a gwasanaethau eraill.

## Beth rydyn ni am ei wneud:

- Cynnwys pobl â chyflyrau dros dro* fydd ddim yn para am byth,

- Gwneud y broses gwneud cais yn symlach lle y gallwn, a

- Gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y rheolau wrth ddefnyddio'r bathodyn.



*__Cyflyrau dros dro__ yw'r cyflyrau hynny sydd ddim yn para am byth ond sy'n para o leiaf flwyddyn - fel coes sydd wedi torri'n wael neu anaf gwael i'r pen

## Rydyn ni eisiau clywed eich barn

Dim ond i Gymru mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol. Rydyn ni am wybod eich barn ar y canlynol:

## Cynnwys pobl â chyflyrau dros dro

Ar hyn o bryd, dim ond pobl sydd ag anabledd a fydd yn para am byth sy'n cael perchen ar fathodyn. Ond rydyn ni am gynnwys pobl â chyflyrau dros dro.

1. Ydych chi'n cytuno y dylai pobl â chyflyrau dros dro gael bathodyn?

2. Rydyn ni'n credu y bydd yn helpu'r bobl hyn, ydych chi'n cytuno;

- Pobl sydd wedi torri eu coes yn ddifrifol
- Pobl sydd wedi cael strôc neu anaf gwael i'r pen
- Pobl ag anafiadau gwael i'w hasgwrn cefn
- Pobl sydd angen clun neu ben-glin newydd.

3. Ydyn ni wedi anghofio rhywbeth?

4. Pwy ddylai ddweud wrthyn ni fod angen bathodyn dros dro ar rywun?

5. Yn eich barn chi, am faint y dylai pobl gael bathodyn dros dro?

## Gwneud y broses gwneud cais yn symlach



Mae awdurdodau lleol yn defnyddio dulliau gwahanol i benderfynu a ddylen nhw roi bathodyn i rywun.

Mae rhai yn dal i ofyn i feddyg teulu'r ymgeisydd ond o'n profiad ni nid yw hynny'n syniad da bob tro.

Mae rhai'n defnyddio ffurflenni arbennig neu'n defnyddio Pecyn Cymorth Dilysu'r Bathodyn Glas*. Llywodraeth Cymru sydd wedi cyhoeddi hwn i helpu awdurdodau lleol i ddod i benderfyniad.

Mae angen gwneud cais am fathodyn newydd bob 3 blynedd.
Rydyn ni am ei gwneud yn haws felly i bobl sydd ddim angen asesiad arall bob tro.

***Pecyn Cymorth Dilysu Cynllun y Bathodyn Glas** - canllaw i helpu awdurdodau lleol drwy'r broses gwneud cais ac sy'n rhoi sgôr ar sail tystiolaeth pob cais

Yn ein barn ni, os yw deiliad bathodyn wedi cael asesiad gan weithiwr iechyd annibynnol proffesiynol*, dylai gael adnewyddu'r cais heb orfod cael asesiad arall.



Bydd ein cyngor cyfreithiol a'n canllawiau i awdurdodau lleol yn esbonio pa asesiadau blaenorol y dylen nhw eu derbyn a gan ba weithwyr iechyd annibynnol proffesiynol - fel ymgynghorydd neu Lawfeddyg.

*__Gweithiwr iechyd annibynnol proffesiynol__ yw rhywun sydd ddim yn rhan o ofal bob dydd y claf

6. Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol ond defnyddio asesiad gan weithiwr iechyd annibynnol proffesiynol?



7. A ddylai hwn fod yr achos bob tro?

8. Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn haws i bobl adnewyddu cais os ydyn nhw eisoes wedi cael asesiad gan weithiwr iechyd annibynnol proffesiynol?

**<u>Dewis y lefel iawn</u>**

Gall unigolyn gael bathodyn yn awtomatig os yw'n derbyn budd-daliadau symudedd fel Lwfans Byw i'r Anabl* a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol*.

*Mae pobl sy'n cael cyfradd uwch elfen symudedd y lwfans byw i'r anabl a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol wedi'u hasesu gan unigolyn annibynnol.

Yr un amodau sy'n cael eu defnyddio i benderfynu a ddylai pobl gael bathodyn.

Felly'n gyffredinol, byddwn yn gwrthod rhoi bathodyn i rywun rydym wedi gwrthod budd-dal symudedd iddo.

9. A ddylai awdurdodau lleol gael gwrthod cais am fathodyn os yw'r unigolyn wedi'i asesu am fudd-daliadau symudedd ac wedi'i wrthod?

10. Yn eich barn chi a ddylai'r asesiad fod wedi'i gynnal yn y 12 mis diwethaf?

**Gwella'r broses orfodi**

Mae Llywodraeth Cymru hefyd am wella trefniadau parcio a gorfodi.

Rydyn ni'n poeni nad yw pobl yn defnyddio eu bathodyn yn y ffordd iawn.



Os nad yw unigolyn yn defnyddio'i fathodyn yn y ffordd iawn, gall pobl fel wardeiniaid traffig a

swyddogion gorfodi gymryd y bathodyn oddi arno yn y fan a'r lle. Ond ar hyn o bryd rhaid ei ddychwelyd at y person sy'n berchen arno.


11. Yn eich barn chi a ddylai awdurdodau lleol gael canslo bathodyn os yw unigolyn yn parhau i dorri'r rheolau?



12. A ddylai'r unigolyn gael gofyn am ei fathodyn yn ôl a'r rheswm pam?

13. Sawl gwaith y dylai bathodyn cyfnewid gael ei roi cyn y gall yr awdurdod lleol benderfynu peidio â rhoi un arall?


## Dweud eich dweud



Hoffen ni glywed barn unrhyw un sydd â diddordeb ym materion yr ymgynghoriad hwn.

Hoffen ni glywed gan y bobl a'r grwpiau hyn yn benodol:

- Pobl anabl a grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl.
- Swyddogion gorfodi parcio a'u grwpiau neu eu sefydliadau.
- Cynghorau lleol a phartïon eraill â diddordeb.



Gallwch roi'ch barn i Lywodraeth Cymru drwy ateb y cwestiynau a'u hanfon dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad isod.

Drwy'r post:
Tîm y Bathodyn Glas
Yr Is-adran Trafnidiaeth Gyhoeddus
Trafnidiaeth Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6586

E-bost:
blue.badge@cymru.gsi.gov.uk

**Rhyddid gwybodaeth**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Felly os byddwch chi neu unrhyw un arall yn dweud eich barn wrthym ni am syniadau'r llywodraeth i newid cynllun y Bathodyn Glas, gall pobl eraill ofyn inni beth gafodd ei ddweud.

Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth fel eich enw. Ac mae'r bobl hyn yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon yn y pethau maen nhw'n eu hysgrifennu. Felly os byddwch chi'n rhoi'ch enw inni, rydych chi hefyd yn dweud eich bod yn fodlon inni roi'r wybodaeth hon i bobl eraill sy'n gofyn amdani.

Os nad ydych chi eisiau inni wneud hyn, gallech chi roi llai o wybodaeth am eich hunan. Er enghraifft, gallech chi roi'ch enw cyntaf ac enw'r dref lle rydych chi'n byw yn unig.

Os nad ydych chi eisiau inni ddweud wrth bobl eraill beth yw'ch barn chi am y newidiadau i gynllun y Bathodyn Glas, esboniwch pam. Ond hyd yn oed wedyn, oni bai bod eich rheswm yn un da, mae'n bosib y bydd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn golygu bod rhaid inni ddweud wrth bobl.

Os byddwch yn cysylltu â ni ar e-bost, allwn ni ddim fod yn hollol siŵr nad oes unrhyw un arall yn gweld eich e-bost.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Llywodraeth Cymru yn edrych ar beth rydych chi'n ei ddweud ac yn ei roi ar ei gwefan.
Am fod hwn yn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru mae'n rhaid inni ofyn am rywfaint o wybodaeth amdanoch.

## **Amdanoch chi**



Enw:

Rhif Ffôn:

E-bost:

Cyfeiriad:

Ydych chi'n cynrychioli grŵp?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Enw'r grŵp:

Gawn ni rannu'ch atebion â'r cyhoedd?

Cewch ☐ Na chewch ☐

Gawn ni rannu'ch enw â'r cyhoedd?

Cewch ☐ Na chewch ☐

Gawn ni gysylltu â chi eto os byddwn am siarad â chi am eich atebion?

Cewch ☐ Na chewch ☐

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno y dylai pobl â chyflyrau dros dro gael bathodyn?

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| | |

| **Sylwadau** |
|---|
| |

**Cwestiwn 2:** Rydyn ni'n credu y bydd yn helpu;

- Pobl sydd wedi torri eu coes yn ddifrifol
- Pobl sydd wedi cael strôc neu anaf gwael i'r pen
- Pobl ag anafiadau gwael i'w hasgwrn cefn
- Pobl sydd angen clun neu ben-glin newydd.

Ydych chi'n cytuno?

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| | |

| **Sylwadau** |
|---|
| |

**Cwestiwn 3:** Ydyn ni wedi anghofio rhywbeth?

| Do | Naddo |
|---|---|
| | |

| Sylwadau |
|---|
| |

**Cwestiwn 4:** Pwy ddylai ddweud wrthyn ni fod angen bathodyn dros dro ar rywun?

| Sylwadau |
|---|
| |

**Cwestiwn 5:** Yn eich barn chi, am faint y dylai pobl gael bathodyn dros dro?

| Blwyddyn | 2 flynedd | 3 blynedd |
|---|---|---|
| | | |

| Sylwadau |
|---|
| |

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau lleol ond defnyddio asesiad gan weithiwr iechyd annibynnol proffesiynol?

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| | |

Sylwadau

**Cwestiwn 7:** A ddylai hwn fod yr achos bob tro?

| Dylai | Na ddylai |
|---|---|
| | |

Sylwadau

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n cytuno y dylai fod yn haws i bobl adnewyddu cais os ydyn nhw eisoes wedi cael asesiad gan weithiwr iechyd annibynnol proffesiynol?

| Ydw | Nac ydw |
|---|---|
| | |

Sylwadau

**Cwestiwn 9:** A ddylai awdurdodau lleol gael gwrthod cais am fathodyn os yw'r unigolyn wedi'i asesu a'i wrthod ar gyfer budd-daliadau symudedd?

| Dylent | Na ddylent |
|---|---|
| | |

Sylwadau

**Cwestiwn 10:** Yn eich barn chi a ddylai'r asesiad fod wedi'i gynnal yn y 12 mis diwethaf?

| Dylai | Na ddylai |
|---|---|
| | |

Sylwadau

**Cwestiwn 11:** Yn eich barn chi a ddylai awdurdodau lleol gael canslo bathodyn os yw unigolyn yn parhau i dorri'r rheolau?

| Dylent | Na ddylent |
|---|---|
| | |

Sylwadau

**Cwestiwn 12:** A ddylai'r unigolyn gael gofyn am ei fathodyn yn ôl a'r rheswm pam?

| Dylai | Na ddylai |
|---|---|
| | |

Sylwadau

**Cwestiwn 13:** Sawl gwaith y dylai bathodyn cyfnewid gael ei roi cyn y gall awdurdod lleol benderfynu peidio â rhoi un arall i unigolyn?

| | |
|---|---|
| | |
| | |

Sylwadau